

Strategaeth Gorfforaethol CCAUC 2013-14 – 2015-16

Rhagair

Adolygiad o amgylchedd a pherfformiad yn erbyn y strategaeth ddiwethaf

Ein Gweledigaeth:

Addysg uwch gynaliadwy, hygyrch, ragorol ar lefel ryngwladol yng Nghymru

Byddwn yn datblygu ac yn cynnal addysg uwch hygyrch, ragorol o safon ryngwladol yng Nghymru, er lles unigolion, cymdeithas a'r economi, yng Nghymru a thu hwnt

Ein Cenhadaeth


Ein nod yw

- *Sicrhau profiad addysg uwch o safon ragorol i fyfyrwyr ac ymchwil o safon ragorol;*
- *hyrwyddo cyfraniad addysg uwch yng Nghymru i Lywodraeth Cymru, cyflogwyr a'r cyhoedd ehangach;*
- *sicrhau bod prifysgolion a cholegau yn cyflenwi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch*

Er mwyn

- *Cynyddu cyfiawnder cymdeithasol;*
- *Cefnogi economi fywiog*

Ein fframwaith strategol



Themâu Strategol Allweddol

Ehangu Mynediad

Amcan: Sicrhau cynhwysiant, dilyniant a llwyddiant mewn addysg uwch

Mae cyfiawnder cymdeithasol yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru ac mae gan ehangu mynediad i ddysgu lefel uwch gyfraniad pwysig i'w wneud at y nod hwn. Mae sector Cymru yn perfformio'n dda yn erbyn dangosyddion perfformiad y DU yn y maes hwn ond rydym yn awyddus i weld gwelliannau pellach ar gyfer dysgwyr o bob oedran a chefnidir wrth adeiladu ar gymunedau dysgu cynhwysol ac amrywiol, a'u hyrwyddo, i ddarparu cyfle cyfartal i bawb. Gan ein bod wedi ailffocysu ein hymagwedd a'n trefniadau cyllido ar gyfer ehangu mynediad, byddwn yn annog darparwyr addysg uwch i ddatblygu eu hadnoddau i'r eithaf drwy greu darpariaeth ar y cyd a dangos effaith a llwyddiant ehangu mynediad i addysg uwch.

Bydd mwy o bwys yn cael ei roi ar ddarpariaeth ran-amser (gan gynnwys ymagweddau arloesol at ddarpariaeth hyblyg a dysgu seiliedig ar waith), ar fynediad teg, gan gynnwys mynediad i'r proffesiynau, ar gadw myfyrwyr a llwyddiant dysgwyr. Gan adeiladu ar eich cyngor i'r Gweinidog ar ddarpariaeth ran amser sy'n canolbwyntio ar gyflogwyr a dilyniant o AB, byddwn yn rhoi ein cynllun gweithredu ar waith ar gyfer gwella darpariaeth ran-amser. Byddwn yn cynnal ein ffocws ar gymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, yn cynnwys y clystyrau Cymunedau yn Gyntaf, i fynd i'r afael ag anghysondebau ym maes cynhwysiant, dilyniant, symudedd cymdeithasol a llwyddiant i'r rhai o ardaloedd amddifadiad lluosol Cymru, yn ogystal â mynd i'r afael â thlodi ymhlith plant.

Bydd dimensiwn rhanbarthol i gynllunio a chyflenwi addysg uwch yn gwella'r dilyniant i addysg uwch, a thu hwnt, erbyn diwedd cyfnod y strategaeth, yn cynnwys ardal Blaenau'r Cymoedd. Bydd gweithio mewn partneriaethau cynhyrchiol, gan gynnwys gydag addysg bellach a darparwyr ôl-16 eraill yn cael ei ddatblygu. Byddwn yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a'r sector i sicrhau cyfle cyfartal, gan gynnwys drwy drefniadau'r cynllun ffioedd

Ym maes Ehangu Mynediad byddwn yn gweithio'n arbennig i gwrdd â'r disgwyliadau canlynol yn *Er Mwyn ein Dyfodol*¹:

- Cynyddu cyfranogiad i'r eithaf drwy ffyrdd gwahanol a mwy hyblyg o gael addysg uwch, gan gynnwys astudiaeth ran-amser
- Rhoi sylw i anghysondebau o ran mynediad a chyfle

¹ Daw disgwyliadau *Er Mwyn ein Dyfodol* a restrir o dan bob Thema Strategol o'r disgwyliadau a roddwyd mewn print trwm yn *Er Mwyn ein Dyfodol* neu'n cynnwys testun o *Er Mwyn ein Dyfodol*.

Profiad y Myfyriwr

Amcan: Sicrhau bod profiad y myfyriwr o ansawdd rhagorol ac yn cael ei wella yn sgil llais y myfyriwr

Mae'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfirwyr ar gyfer Cymru yn nodi bod lefelau o fodlonrwydd myfirwyr yn uchel². Cafwyd lefelau o fodlonrwydd yr un mor uchel mewn arolygon o brofiadau myfirwyr rhyngwladol yng Nghymru. Dengys y canlyniadau hyn y flaenoriaeth a roddir yng Nghymru i ansawdd y profiad a gynigir i fyfirwyr. Maent hefyd yn adlewyrchu gweithio'n agos gyda myfirwyr fel partneriaid yn eu profiad dysgu. Mae *Er Mwyn ein Dyfodol* yn rhoi pwys penodol ar lais y myfyriwr. Byddwn yn parhau i sicrhau bod llais y myfyriwr yn gwella addysg uwch, yn cynnwys drwy ein gwaith o gydweithio ag Undeb Cenedlaethol y Myfirwyr Cymru, ac eraill sy'n cefnogi'r Fenter Ymgysylltu â Myfirwyr Cymru (WISE).

Drwy ein hymagwedd at wella ansawdd³, byddwn yn annog sefydliadau i wella profiad y myfyriwr yn barhaus ar gyfer y boblogaeth amrywiol, gan gynnwys drwy ymateb i lais y myfyriwr, er enghraifft, drwy'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfirwyr, a thrwy gefnogi asiantaethau yn y sector sy'n gallu cynnig dulliau o weithio gyda'r system addysg uwch yng Nghymru ar raddfa'r DU gyfan. Byddwn yn gweithio gyda'r sector i sicrhau ei fod yn ymgysylltu'n effeithiol â Fframwaith Safonau Proffesiynol a'r Cod Ansawdd newydd ar gyfer Addysg Uwch. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod gan ddarpar fyfirwyr a myfirwyr cyfredol y wybodaeth briodol am addysg uwch, yn cynnwys drwy Setiau Gwybodaeth Allweddol, a'r gost o astudio.

Byddwn yn cynnal adolygiad pellach o'n strategaeth ar gyfer gwella dysgu ac addysgu drwy dechnoleg⁴ i adlewyrchu ffurfiau newydd ac arloesol ar ddysgu a byddwn yn parhau i gefnogi Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang drwy rwydweithiau'r sector. Byddwn yn gweithio gyda darparwyr i annog arloesedd wrth

² unistats.direct.gov.uk/

³

www.hefcw.ac.uk/documents/publications/circulars/circulars_2010/W10%2002HE%20Mechanisms%20for%20Supporting%20the%20Enhancement%20of%20Learning%20Opportunities.pdf

⁴ www.hefcw.ac.uk/documents/publications/circulars/circulars_2008/W08%2012HE%20circ.pdf

ddylunio rhaglenni a dulliau modiwlaidd i wella hyblygrwydd y ddarpariaeth, gan adeiladu ar fanteision presennol Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW) ac achredu dysgu blaenorol.

Yn ystod cyfnod y strategaeth byddwn yn parhau i weithio i gefnogi'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ymestyn ystod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a chynyddu cyfranogiad y myfyrwyr ym maes addysg uwch cyfrwng Cymraeg.

Drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru a'n partneriaid, byddwn yn cefnogi gwaith y sector o gyflenwi'r Cynllun Gweithredu Rhyngwladol i Gymru, yn enwedig wrth sicrhau bod Cymru'n lle deniadol i fyfyrwyr a staff rhyngwladol, yn ogystal â hyrwyddo rhyngwladoli ar draws AU er budd cymuned y myfyrwyr yn gyffredinol.

Yn unol â'n cyfrifoldebau statudol, byddwn yn cyllido ac yn achredu hyfforddiant cychwynnol athrawon ac yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau darpariaeth o safon uchel i fodloni targedau Llywodraeth Cymru.

O ran Profiad y Myfyriwr, byddwn yn gweithio'n arbennig i gwrdd â'r disgwyliadau canlynol yn *Er Mwyn Ein Dyfodol*:

- Parheir â'r ymdrechion i gynnig profiad ardderchog i fyfyrwyr
- Ei gwneud hi'n bosibl i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn amrywiaeth ehangach o raglenni a lleoliadau yng Nghymru
- Sicrhau bod addysg uwch yn cael ei chryfhau gan lais y myfyriwr

Sgiliau, Cyflogadwyedd a Menter

Amcan: Sicrhau bod pawb sy'n graddio yn barod am fywyd a byd gwaith a bod prifysgolion yn cyflenwi gweithlu wedi'i uwchsgilio

Mewn partneriaeth ag Addysg Uwch Cymru, CBI Cymru ac UCM Cymru byddwn yn gweithredu ein Fframwaith Sgiliau a Chyflogadwyedd. Mae hwn wedi'i ddylunio yng nghyd-destun uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i sicrhau bod myfyrwyr AU Cymru ar y blaen, a fydd yn eu gwneud yn fwy atyniadol i gyflogwyr ac mewn sefyllfa well i gystadlu yn yr economi fyd-eang. Hefyd bwriedir iddo atgyfnerthu'r negeseuon y mae graddedigion yn eu cael am werth yr elfennau cyflogadwyedd o'u cwrs o ran eu tebygrwydd o gael eu cyflogi (yn enwedig yn yr amgylchedd ffioedd dysgu newydd). Bydd dylunio, datblygu a chyflenwi'r ddarpariaeth o addysg uwch yn well (llawn amser a rhan-amser) i adlewyrchu gofynion cyflogwyr yn llawnach yn allweddol i sicrhau cynnydd cynnar.

Mae'r Fframwaith yn ein hymrwymo i weithio mewn partneriaeth i wella sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith ein graddedigion a chynnig cyfleoedd newydd i uwchsgilio a dysgu sgiliau newydd y gweithlu presennol (drwy adfywio opsiynau astudio'n rhan amser). Mae'n galw ar brifysgolion, undebau myfyrwyr, cyflogwyr a phartneriaid eraill i adeiladu ar amrywiaeth, arloesedd a hyblygrwydd sydd eisoes yn hanfodol yn y system addysg uwch a gwella'r sgiliau cyflogadwyedd a menter a roddwn i'n graddedigion. Bydd hyn yn eu paratoi ar gyfer cyflogaeth ar unwaith ac yn eu paratoi ar gyfer gofynion heriol economi'r dyfodol sy'n seiliedig ar wybodaeth.

Mae rhaglen GO Wales yn sylfaenol i'r gwaith o gyflenwi'r Fframwaith. Byddwn yn parhau i gyflenwi GO Wales yn ei fformat presennol hyd at ddiwedd 2013 ac ar yr un pryd yn chwilio am gyfleoedd ar gyfer cyllid Ewropeaidd pellach er mwyn ail-gryfhau'r rhaglen fel ei bod yn parhau i chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o ddatblygu sgiliau a chyflogadwyedd myfyrwyr a graddedigion yng Nghymru. Byddwn yn rhoi ein cynllun gweithredu ar waith ar gyfer darpariaeth ran-amser sy'n cefnogi uwchsgilio'r rhai mewn gwaith, yn cynnwys ôl-raddedigion, drwy gyrsiau sy'n cael eu harwain gan gyflogwyr a darpariaeth cyfnodau byr, a gwella datblygiad proffesiynol parhaus.

Byddwn yn parhau i gefnogi darpariaeth AU hyblyg (yn cynnwys graddau sylfaen a dysgu seiliedig ar waith) drwy ein agenda rhanbarthol a'n cefnogaeth i Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd (UHOVI). Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i gyflenwi ei *Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuencid*. Byddwn yn

parhau â'n ffocws ar Wyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM), gan ymateb i strategaeth Gwyddoniaeth i Gymru (SfW), leithoedd Tramor Modern drwy ein cefnogaeth i Strategaeth *leithoedd sy'n Cyfrif* Llywodraeth Cymru, ac Astudiaethau Cymru, yn cynnwys astudio hanes, llenyddiaeth, diwylliant, cymdeithas a gwleidyddiaeth Cymru. Yn ogystal byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i gyflenwi'r Cynllun Gweithredu Rhyngwladol i Gymru, sy'n cydnabod gwerth lleoliadau rhyngwladol i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd.

Ym maes Sgiliau byddwn yn gweithio'n arbennig i ateb y disgwyliadau canlynol yn *Er Mwyn Ein Dyfodol*:

- Mae cyfran uwch o'r boblogaeth yn dysgu sgiliau lefel uwch
- Datblygu mwy o amrywiaeth a hyblygrwydd yng nghynllun, hyd a dulliau cyflwyno rhaglenni i gyd-fynd ag angen a galw
- Cynigir cyfleoedd dysgu rhan-amser gwell
- Mae cyflogadwyedd yn un o ganlyniadau allweddol y profiad addysg uwch
- Cryfhau cyfraniad addysg uwch at ddatblygu'r gweithlu

Arloesedd ac Ymgysylltu

Amcan: Sicrhau perthnasoedd mwy cynhyrchiol rhwng sefydliadau addysg uwch a'r sector cyhoeddus, y sector preifat, a'r trydydd sector

Mae addysg uwch eisoes yn chwarae rôl allweddol i gefnogi lles economaidd a chymdeithasol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy i ddiwallu anghenion cyflogwyr a'r gymdeithas yn fwy cyffredinol er mwyn sicrhau y gall y wybodaeth a ddatblygir mewn addysg uwch gael ei gwneud yn hygyrch fel y gall y gymuned fusnes a chymunedau eraill, yng Nghymru a thu hwnt, ei datblygu.

Byddwn yn bwrw ymlaen â'n gwaith gyda'r sector, ochr yn ochr â gweithgarwch a arweinir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn benodol, byddwn yn cefnogi cyfleoedd buddsoddi newydd yng Nghymru drwy sicrhau cydberthynas waith agosach rhwng AU a busnesau, yn cynnwys y rhai sy'n gweithredu dramor. Byddwn yn annog y gwaith o ddatblygu porth mwy effeithiol ar gyfer gwasanaethau addysg uwch sy'n cael eu targedu at gyflogwyr ac yn gweithio gyda sefydliadau i gynyddu nifer eu gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth, yn cynnwys masnacheiddio deilliannau ymchwil ymhellach. Byddwn hefyd yn gweithio gyda darparwyr addysg uwch yn rhanbarthol i ddatblygu eu cysylltiadau â chyflogwyr lleol, darparwyr addysg bellach, llywodraeth leol a chyrrff eraill y sector cyhoeddus i ddatblygu eu rolau diwylliannol a dinesig, yn ogystal â'u cyfraniad at ddatblygiad economaidd. Gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill byddwn yn cefnogi gwaith y sector o gyflenwi Cynllun Gweithredu Rhyngwladol i Gymru. Byddwn hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflenwi ei Strategaeth Arloesi ei hun.

Ym maes Arloesedd ac Ymgysylltu byddwn yn gweithio'n arbennig i fodloni'r disgwyliadau canlynol yn *Er Mwyn Ein Dyfodol*:

- Cefnogir yr economi drwy gryfhau ymelwa systematig ar wybodaeth
- Rôl ddiwylliannol a dinesig addysg uwch yn cael ei gwella

Ymchwil

Amcan: Sicrhau ymchwil o safon ragorol i danategu'r economi wybodaeth a chefnogi cymdeithas sifil

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau ymchwil rhagorol cynaliadwy ym maes addysg uwch drwy gryfhau ansawdd a maint y sylfaen ymchwil yng Nghymru, tra'n ymdrechu i sicrhau màs critigol mwy rhesymegol a chydlynol. Byddwn yn cyfeirio cyllid yn unol â hynny, o dan arweiniad canlyniadau Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014, a fydd, o bosibl, yn arwain at gydgrynhoi cyllid a chymorth ymchwil i nifer llai o brifysgolion sy'n gallu dangos rhagoriaeth gynaliadwy ym maes ymchwil. Bydd hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o weithredu Gwyddoniaeth i Gymru (SfW), gyda'r bwriad o gynyddu mynediad y sector i'r Cyngor Ymchwil a ffynonellau eraill o gyllid allanol, yn enwedig yn y tri maes Her Fawr Gwyddoniaeth i Gymru (gwyddorau bywyd ac iechyd; carbon isel, ynni a'r amgylchedd; a deunyddiau a pheirianeg datblygedig). Er mwyn gwneud hyn byddwn yn gweithio'n agos gydag Addysg Uwch Cymru Brwsel.

Drwy gydnabod pwysigrwydd olraddedigion i ddyfodol economi Cymru a dymunolrwydd cynyddu maint y gymuned ôl-radd yng Nghymru, byddwn yn parhau i ddarparu cymorth strategol ar gyfer ymchwil ôl-radd

Byddwn yn disgwyl i sefydliadau addysg uwch fabwysiadu ymagwedd fwyfwy strategol at reoli ymchwil, a datblygu agendâu ymchwil ar y cyd â darpar ddefnyddwyr. Rydym yn bwriadu gweithio gyda'r Sefydliad Arweinyddiaeth ar gyfer AU i ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth ymchwil ymhellach.

Ar yr un pryd, byddwn hefyd yn cydnabod rôl ymchwil yn fwy eang wrth gefnogi cyfiawnder cymdeithasol a lles, ac mae galluogi adfywio ac adnewyddu dinesig yn rhai o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru.

Ym maes ymchwil, byddwn yn gweithio i gwrdd â'r disgwyliadau canlynol yn *Er Mwyn Ein Dyfodol*:

- Gweithgarwch ymchwil yn effeithiol ac yn ffynnu
- Cynyddu effaith ymchwil prifysgol, drwy dargedu cymorth at feysydd o gryfder a blaenoriaethau cenedlaethol, ac yn enwedig drwy gydweithio

Themâu Galluogi

Ail-gyflunio a Chydweithio

Amcan: Cynhyrchu system addysg uwch ailgyfluniedig gyda darparwyr cryf sydd, drwy weithio mewn partneriaeth, yn enwedig yn rhanbarthol, yn cynnig cyfleoedd addysg uwch mwy hygyrch.

Mae *Er Mwyn Ein Dyfodol* yn disgwyl newid mawr ym mherfformiad addysg uwch yng Nghymru. Yn gyffredinol, credwn fod gormod o'n prifysgolion yn rhy fach yn ôl safonau'r DU, a bod gennym ormod o sefydliadau, a bod hyn yn codi cwestiynau ynghylch cystadleurwydd, cynaliadwyedd ac ystod y ddarpariaeth.

Yn ogystal, bydd gwreiddio diwylliant o gydweithio, gan gydweithio'n fwy cynhyrchiol, a dileu cystadleuaeth ddiangen, yn hanfodol i sicrhau bod y system addysg uwch yn parhau i fod yn gynaliadwy mewn cyd-destun hynod o gystadleuol yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys datblygu dimensiwn rhanbarthol sylweddol i gyflenwi. Byddwn yn ceisio sicrhau datblygiad parhaus ar gyfer y dimensiwn rhanbarthol hwn yn seiliedig ar strwythurau sydd bellach ar waith i sicrhau bod anghenion a blaenoriaethau lleol a rhanbarthol yn cael eu nodi a'u bodloni'n well.

Yn nhermau Ail-gyflunio a Chydweithio byddwn yn gweithio'n arbennig i ateb y disgwyliadau canlynol yn *Er Mwyn Ein Dyfodol*:

- Mwy o gydweithio ymhlith darparwyr addysg uwch, a rhwng darparwyr addysg uwch a darparwyr eraill, gyda ffocws penodol ar ail-gyflunio'r sector addysg uwch yn briodol
- Dimensiwn rhanbarthol i gynllunio a chyflenwi addysg uwch

Llywodraethu

Amcan: Sicrhau gwelliannau parhaus yn ansawdd llywodraethu a chynaliadwyedd tymor hir y system addysg uwch.

Cydnabyddwn rôl hanfodol llywodraethwyr wrth bennu cyfeiriad strategol sefydliadau annibynnol a monitro a dal timau gweithredol yn gyfrifol am berfformiad sefydliadau. Yn ogystal, â'u cyfrifoldebau i'w sefydliadau eu hunain, credwn hefyd fod gan gyrff llywodraethu rôl bwysig i'w chwarae wrth gael barn gyfannol ar y ffodd y gall y system addysg uwch ddiwallu anghenion Cymru orau, yn ogystal â chymryd i ystyriaeth ffactorau'r DU a rhyngwladol sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer eu sefydliadau. Mae angen i gyrff llywodraethu fyfyrion briodol ar amrywiaeth y cymunedau maent yn eu gwasanaethau, dangos y weledigaeth a'r arweiniad angenrheidiol, a darparu cymorth i dimau gweithredu er mwyn symud y tu hwnt i gyfyngiadau strwythurau ac arferion hanesyddol presennol y sector a chryfhau darpariaeth addysg uwch Cymru.

Byddwn yn datblygu ein proses ymgysylltu strategol â sefydliadau addysg uwch ymhellach, ac un o'r nodau yw cryfhau llywodraethu ar draws y sector. Byddwn yn cefnogi ymdrechion cydweithiol sefydliadau i wella llywodraethu, arweinyddiaeth a rheolaeth, a rhannu adnoddau i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd, gan ddysgu oddi wrth arferion ledled y DU. Byddwn yn parhau i adeiladu ar arferion da, gan nodi anghenion datblygu llywodraethu cyfredol a rhai'r dyfodol, a hyrwyddo neu annog rhaglenni newydd i ddatblygu fframweithiau cymorth.

Ym maes Llywodraethu rydym yn gweithio'n arbennig i ateb y disgwyliadau canlynol yn *Er Mwyn Ein Dyfodol*:

- Hybu rôl ddinesig darparwyr addysg uwch
- Adolygu llywodraethu sefydliadol mewn addysg uwch

Effeithiolrwydd Sefydliadol

Amcan: Bod yn sefydliad sy'n cael ei redeg yn dda, sy'n gost effeithiol, a fydd yn gweithio'n gynhyrchiol gyda Llywodraeth Cymru a'r sector.

Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yw CCAUC. Mae ganddo gyfrifoldebau statudol i weinyddu'r cyllid a roir gan Lywodraeth Cymru i gynnal yr addysg a ddarperir a'r ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, a rhai cyrsiau addysg uwch a ddarperir mewn colegau addysg bellach. Rydym hefyd yn achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol ac yn comisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Rydym yn ymdrechu i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ni i gefnogi'r sector, drwy strategaethau a mentrau, yn ogystal â thrwy ddatblygu dulliau cyllido cadarn, wedi'u llunio i sicrhau bod yr adnoddau hyn yn cael eu defnyddio'n effeithlon. Mae ein dull o weinyddu cynlluniau ffioedd yn sicrhau cyfle cyfartal i fyfyrwyr ac yn sicrhau bod addysg uwch gan ddarparwyr AU yng Nghymru yn cael ei hybu.

Mae gennym gyfrifoldebau statudol hefyd mewn perthynas â chydaddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys perfformiad yn y sector addysg uwch. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012-13 – 2015-16 yn cynnwys amcanion a chynllun gweithredu ar gyfer y cyfnod. Mae ein cyfrifoldebau statudol hefyd yn cwmpasu rhyddid gwybodaeth a diogelu data.

Ein nod yw bod yn ddewis deniadol fel cyflogwr. Credwn mai ein cyflogeion yw ein hased mwyaf gwerthfawr. Gellir ond cyflawni ein diben a'n gweledigaeth os byddwn yn meithrin ac yn gwneud defnydd llawn o'r adnoddau a'r talentau a gyflwynir drwy ein staff. Gellir ond gwneud hyn drwy gydnabod a gwerthfawrogi gwahaniaethau unigol rhwng cyflogeion a darpar gyflogeion, a'r ffordd y gellir harneisio'r gwahaniaethau hyn er mwyn adeiladu sefydliad cryf ac amrywiol.